# Biwmares

**Taith Gerdded Gylchol Arfordirol**

Taith gymedrol ydy hon o gwmpas tref lan môr hanesyddol *Biwmares*. Gan ddechrau wrth y Pier â'i olygfeydd urddasol dros y Fenai, mae'r daith hon yn mynd â chi i sawl un o uchafbwyntiau'r dref heibio hen fythynnod lliw pastel, siopau o safon a thafarnau hynafol.

3.0km

HAWDD

## Cyfarwyddiadau

### 1 Y Pier at y Llys

Cerddwch i ben y Pier a syllwch ar y golygfeydd; o'ch blaen, ceir mynyddoedd Eryri, ac i'r dde, ar y lan gyferbyn, ceir dinas Bangor. Ar y chwith i chi, gallwch weld Pen y Gogarth a Llandudno. Ewch yn ôl i lawr y pier, gan sylwi ar y Simnai Restredig Gradd II ar y chwith, a theras crand Victoria Terrace ar y dde. Ar y Grîn, fe welwch gylch cerrig. Croeswch y ffordd yn ofalus, ac ewch yn syth ymlaen i lawr y ffordd gul, gan anelu at y porth bwaog i gerddwyr o dan Neuadd y Dref. Fe ddowch allan ar Stryd y Castell, lle cewch bob math o siopau a bwytai. Fe welwch y Tudor Rose gyferbyn â chi. Trowch i'r dde heibio Gwesty'r Bulkeley ac, ar y chwith, tafarn The Bulls Head. Pan gyrhaeddwch y sgwâr, ewch tua ochr dde'r Llys.

### 2 Y Llys i Borth Bulkeley

Croeswch y ffordd a cherddwch at y groesfan i gerddwyr. Croeswch yma a mynd i mewn i'r gerddi, ewch rownd llwybr y perimedr a rhyfeddwch wrth weld wal ddwyreiniol y Castell. Ewch allan o'r parc ac yn ôl rownd y Llys. O'r sgwâr, croeswch y ffordd yn ofalus a cherddwch heibio Siop Anrhegion y Castell. Dilynwch y ffordd rownd i'r chwith. Cynhelir Marchnad Grefftwyr reolaidd o flaen y Ganolfan Gymunedol. Gyda'r Eglwys Gatholig ar y dde, ewch ymlaen i fyny Rating Row. Yn y gyffordd, trowch i'r dde, a dilynwch y ffordd i ben y bythynnod lliw pastel. Croeswch y ffordd ac ewch i lawr Stryd Stanley yn lle gwelwch adeiledd cerrig Porth Bulkeley yn y pen.

### 3 Porth Bulkeley i'r Pier

Dilynwch y ffordd rownd i'r dde mor bell â Ffordd Meigan ar Ystâd Cae Brics, yna trowch ac ewch yn ôl. Cyn y Porth, trowch i'r dde i lawr Stryd y Carchar. Yn y gyffordd, ewch i'r chwith i lawr Stryd Newydd, ac i'r dde yn y pen, i lawr Steeple Lane. Ewch drwy'r porth bwaog i mewn i fynwent Eglwys y Santes Fair a Sant Nicolas. Ewch o amgylch yr eglwys, allan o'r fynwent, yn ôl drwy'r porth bwaog, ac i'r chwith, gan fynd i lawr Steeple Lane. Ar y dde, ceir wal berimedr Llys hanesyddol y dref. Ewch ymlaen i lawr Steeple Lane, trowch i'r dde i lawr Stryd y Capel, sy'n gul, ac yna i'r chwith i lawr Lôn Gadlys. Trowch i'r chwith eto, heibio'r Liverpool Arms ar y chwith, a cherddwch ar hyd Stryd y Castell yn ôl i'r porth bwaog o dan Neuadd y Dref. Gyferbyn â'r Neuadd, ceir Stryd yr Eglwys yn lle mae'r George & Dragon, a Sgwâr y Farchnad. Cerddwch yn ôl drwy'r porth bwaog i fan cychwyn eich taith wrth y Pier. ■

## Safleoedd dethol

● Agorwyd y **Pier** ym 1846 ac, yn dilyn storm, fe'i hadeiladwyd a'i hymestyn i 170m ym 1872. Am flynyddoedd lawer, byddai'n gwasanaethu stemars yn ôl a blaen o *Landudno* a *Lerpwl*. Yn 2011, cafodd ei adnewyddu fel rhan o brosiect £2m mawr.



Pier

● Er ei olwg hynafol, fe adeiladwyd y **Cylch Cerrig** ar y Grîn ym 1995 i nodweddu *Eisteddfod Gadeiriol Môn* a gynhaliwyd yno'r flwyddyn wedyn.



Cylch cerrig



Neuadd y dref

● Roedd adeilad presennol **Neuadd y Dref** wedi cymryd lle neuadd o oes Elisabeth ym 1785. Dywedwyd unwaith mai ei hystafell fawr ar y llawr cyntaf oedd *"the most splendid ballroom in North Wales"*.

● Yn dyddio o'r 1480s, y **'Tudor Rose'** ydy un o'r adeiladau â ffrâm goed hynaf ym Mhrydain. Mae'n ein hatgoffa o sut y byddai'r rhan fwyaf o *Stryd y Castell* ar un adeg.



Tudor Rose



Llys

● A hwnnw bellach yn amgueddfa, adeiladwyd y **Llys** ym 1614, a dyma'r llys hynaf yng Nghymru.

● A hwnnw heb ei gorffen, y bwriad oedd mai'r **Castell** hwn fyddai'r un mwyaf, a mwyaf datblygedig yn ei gyfnod. Wedi'i adeiladu gan *Edward I* rhwng 1295 a 1330, mae'n cynnwys amddiffynfa o bedwar llinell gonsentrig gymesur. Dyma un o ddim ond pump o *Safleoedd Treftadaeth y Byd UNESCO* yng Nghymru.



Castell

© Hawlfraint y Goron / © Crown copyright (2025) Cymru Wales

● Ar ôl ei gwblhau ym 1948, datblygiad gwobrwyedig **Ystâd Cae Brics** o 30 o dai, oedd meincnod tai fforddiadwy o safon y cyfnod ar ôl y rhyfel. Ymwelodd *Aneurin Bevan* â safle'r gwaith adeiladu dair gwaith.



Ystâd Cae Brics



Caead arch


● Mae **Eglwys y Santes Fair a Sant Nicolas** yn dyddio o 1330. Mae corff yr eglwys yn wreiddiol, ond cafodd sawl rhan ei hailfodelu dros y blynyddoedd. Honnid bod yr arch garreg yn y Portsh yn perthyn i'r *Dywysoges Siwan* (a fu farw ym 1237), sef gwraig *Llywelyn Fawr, Tywysog Cymru*.

● Adeiledd trawiadol **Porth Ystâd Bulkeley** oedd y fynedfa ar un adeg i ystâd Baron Hill, a sefydlwyd ym 1618.



Porth

● Fe gafodd yr hen **garchar** ei drawsnewid yn amgueddfa, ac mae'n rhoi mewnweledіad diddorol iawn i fywyd carchar yn oes Fictoria. Wedi'i adeiladu ym 1829 a'i ymestyn ym 1867.



Carchar

Mapio a dylunio graffeg gan / Cartography and graphic design by www.fourpointmapping.co.uk © 2025

TAITH 12 WALK

# Biwmares / Beaumaris

## *Taith Gerdded Gylchol Drefol / Circular Town Walk*

3.0km
HAWDD / EASY

DS: Nid yw'r ffaith fod ffordd neu lwybr yn cael ei gynrychioli ar y map hwn yn dystiolaeth o fodolaeth hawl tramwy cyhoeddus.
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2024 Arolwg Ordnans AC0000825374.
Ni chaniateir i chi gopio, is-drwyddedu, rhannu neu werthu unrhyw ran o'r data yma i drydydd parti mewn unrhyw ffurf.
NB: The representation on this map of a road or path is not evidence of the existence of a public right of way.
© Crown copyright and database rights 2024 Ordnance Survey AC0000825374.
You are not permitted to copy, sub-licence, distribute or sell any of this data to third parties in any form.




Mapio a dylunio graffeg gan / Cartography and graphic design by www.fourpointmapping.co.uk © 2025